Adroddiad i'r:	**Cyd-Bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych**
Dyddiad y Cyfarfod	**21 Hydref 2022**
Aelod / Swyddog Arweiniol:	**Cyng. Jason McLellan,** *Arweinydd* ***Cyngor Sir Ddinbych a Chadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.*** **Cyng. Charlie McCoubrey, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac *Is-gadeirydd* Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
Awduron yr adroddiad:	**Amanda Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** **Hannah Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** **Iolo McGregor - Cyngor Sir Ddinbych** **Shannon Richardson - Cyngor Sir Ddinbych**
Teitl:	**Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2021-22**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae adroddiad blynyddol 2021/22 yn rhoi trosolwg o'r hyn y mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn flaenorol (gweler atodiad A). Mae'n bwysig bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd ac mae'r adroddiad hwn yn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i hunan-fyfyrio ar ble maent yn teimlo eu bod yn gwneud gwahaniaeth, yn unol â'r 5 ffordd o weithio yn ogystal ag amlinellu cyfeiriad y Bwrdd i'r dyfodol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl cyhoeddi pob adroddiad blaenorol.

2.2 Rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddarparu copi o adroddiad blynyddol y Bwrdd i bwyllgor craffu'r llywodraeth leol ddynodedig, er mwyn craffu arno yn unol â dyletswyddau statudol y pwyllgorau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr aelodau'n ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2021/22 ac yn rhoi adborth / argymhellion i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ôl yr angen.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r canllawiau a ddarperir ar gyfer y Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi'r gweithgarwch y mae'r Bwrdd wedi'i gyflawni i fodloni'r amcanion a nodir yn ei gynllun

lles. Fodd bynnag, gall yr adroddiad hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r Bwrdd yn credu y byddai'n briodol. Felly, mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu -

- Cyflawniadau eleni;
- Prif gyflawniadau yn erbyn y blaenoriaethau;
- Meysydd gwaith eraill;
- Ystyriaethau'r Bwrdd ar ôl y flwyddyn hon ac edrych ymlaen; a
- Sut y gall pobl gymryd rhan.

4.2 Dyma'r adroddiad blynyddol terfynol sydd ei angen yn ystod y cylch cynllunio hwn. Yn ôl y canllawiau statudol, yn y flwyddyn yn dilyn etholiad llywodraeth leol arferol (pan fydd cynllun lles lleol newydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi) nid oes gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol hefyd.

5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1 Ymgynghorwyd ag aelodau a swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n darparu cefnogaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

6. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

6.1 Amherthnasol

7. Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2 Mae pwerau craffu wedi'u nodi yn:

- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Adran 58 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Rheoliad 3 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Cyd) (Cymru) 2013
- Adran 35 y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cylch Gorchwyl a Rheolau Gweithdrefnau ar gyfer Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych